O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2949 (Cy. 303)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 33b, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *26 Tachwedd 2012*

*Yn dod i rym* *3 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith a wneir arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Rhagfyr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 33b, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 3 Rhagfyr

2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” *(“the lengths of the trunk roads”)* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A55 a'r A494 rhwng Cyffyrdd 35 a 33b yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod parhad y Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Tachwedd 2012

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn am bellter o 3865 o fetrau o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 i'r man y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 yn uno â'r A494 wrth ddolen Ewloe.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â'r A55 wrth Gyffordd 35.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 yr A55.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33b yr A494.

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 1200 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 i bwynt lle y mae'r ffordd ymadael honno'n cyfarfod â'r A550.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Ewloe i ganolbwynt Pont Pottery.